**EITEM AR YR AGENDA: 10**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17eg Rhagfyr 2012**

## Y DIWEDDARAF AM Y PEIRIANNAU ARBENNIG

**Adroddiad gan Paul Claydon, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi'r diweddaraf i'r Aelodau am sefyllfa bresennol y fflyd peiriannau arbennig.

## Y Cefndir

2 Efallai fod yr Aelodau'n ymwybodol fod adolygiad o'r ddarpariaeth o beiriannau arbennig yn y Gwasanaeth wedi ei gynnal yn 2003/04, gyda'r nod yn y tymor hir o wella fflyd y Gwasanaeth.

3 Arweiniodd yr adolygiad at nifer o newidiadau sylweddol i'r peiriannau arbennig, ac o ganlyniad, cynhaliwyd adolygiad hefyd o ddyluniad a chynllun y peiriannau tân cyffredin, a rhoddwyd hynny ar waith.

## Gwybodaeth

## Yr Uned Achub o Ddŵr (WRU)

4 Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fod gan y Gwasanaeth bedair gorsaf sydd â badau achub. Mae angen chwe aelod o staff i weithredu system ddiogel o weithio ar uned sydd ag offer llawn.

5 Ar hyn o bryd, mae gorsafoedd yr unedau achub o ddŵr yn defnyddio hen *landrovers* dwy sedd wedi eu haddasu o’r hyn oeddent yn flaenorol, sef cerbydau diffodd tân oddi ar y ffordd. Pan fo angen uned achub o ddŵr, bydd peiriant tân o’r un orsaf yn cael ei anfon allan hefyd er mwyn cludo’r aelodau angenrheidol o griw.

6 Un o ganlyniadau’r adolygiad o beiriannau arbennig oedd pennu cerbyd uned achub o ddŵr a oedd yn fwy addas ac yn gallu cludo pob aelod o’r criw, darparu cyfleusterau newid, storio cyfarpar, a gallu tynnu cychod. Mae’r cerbyd hwn wrthi’n cael ei adeiladu.

7 Bu’r swyddogion yn cydweithio’n agos â chydweithwyr yn y Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru ac asiantaethau eraill, gan gynnwys Sefydliad Brenhinol y Badau Achub (yr RNLI), i ddatblygu gallu cydnerth a fydd yn gallu rhyngweithredu ac a fydd yn rhan o Gofrestr Asedau Genedlaethol.

8 Cafodd manteision y dull rhyngasiantaethol hwn eu gweld yn ddiweddar ar adeg y digwyddiadau llifogydd ym mis Tachwedd pan ddefnyddiwyd timau badau o’r RNLI a’r RSPCA ar y cyd â thimau o’r GTA yn Llanelwy, a hynny dan reolaeth y GTA.

**Peiriannau Ysgol ac Esgynlawr (ALP)**

9 Bydd yr Aelodau’n ymwybodol fod oes weithredol i bob cerbyd yn y fflyd. Ugain mlynedd yw oes peiriannau arbennig megis y peiriannau ysgol ac esgynlawr. Daw’r peiriant sydd yn y Rhyl i ddiwedd ei oes weithredol yn 2014.

10 Mae’r broses o ddylunio, creu manyleb, tendro, adeiladu a chomisiynu peiriant ysgol ac esgynlawr yn cymryd tua 18 mis. Mae’r broses hon o gaffael peiriant newydd yn mynd rhagddi.

11 Bydd yn bryd cael rhai newydd yn lle’r ddau beiriant arall yn 2024 a 2028. Mae gwaith yn cael ei wneud i ganfod cyfleoedd i sicrhau bod yr angen am rai newydd yn digwydd ar yr un pryd, a hynny o fewn y Gwasanaeth a chyda cydweithwyr yn y GTAau yng Nghymru.

12 Gallai'r gwaith hwn, o bosibl, sicrhau arbedion maint yn ogystal â lleihau nifer yr adegau pryd y byddai'n rhaid cynnal proses gaffael mor gynhwysfawr, sy'n ddwys o ran adnoddau ac sy'n cymryd llawer o amser.

13 Mae'r Prif Swyddog Tân yn parhau i dderbyn gohebiaeth ynglŷn â'r peiriant ysgol ac esgynlawr. Nodwyd adroddiad yng nghyfarfod diwethaf y Panel Gweithredol, ac mae hwnnw yn Atodiad 1 gyda'r ohebiaeth gysylltiedig.

**Pwmp Achub**

14 Mae'r dyluniad diweddaraf, sef peiriant tân ag olwynion culach, ar waith mewn gorsafoedd ledled y Gogledd. Mae'r 21 o beiriannau tân hyn yn profi i fod yn gerbydau rheng flaen hynod effeithiol a dibynadwy, ac addas i'w defnyddio mewn trefi ac yng nghefn gwlad. Maent hefyd wedi cael derbyniad da gan y criwiau sy'n eu defnyddio.

15 Rhoddodd y Gwasanaeth gyfle i'n cydweithwyr yn y GTAau yng Nghymru werthuso'r peiriant newydd. Bu allbwn y gwerthuso hwnnw yn sail i gytundeb ar un dyluniad ar gyfer caffael peiriannau tân yng Nghymru yn y dyfodol.

**Argymhelliad**

16 Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.

**ATODIAD 1**

**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**19eg Tachwedd 2012**

**GOHEBIAETH AM Y PEIRIANNAU YSGOL AC ESGYNLAWR (ALP)**

**Adroddiad gan Paul Claydon, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Tynnu sylw'r Aelodau at yr ohebiaeth a ddaeth i law yn ddiweddar ynglŷn â'r ddarpariaeth Peiriannau Ysgol ac Esgynlawr (ALP).

## Cyflwyniad

2 Dros yr wythnosau diwethaf, daeth gohebiaeth i law gan Guto Bebb AS, Cyngor Tref Llandudno, Cyngor Tref y Bermo, Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, a Chymdeithas Cynghorau Tref a Chymunedau Mwy o Faint Gogledd Cymru. Mae'r ohebiaeth hon ar gael yn Atodiad 1 er gwybodaeth i'r Aelodau.

## Y Cefndir

3 Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 18 Hydref 2010, penderfynodd yr Aelodau fabwysiadu amser cyrraedd o 30 munud ar gyfer y peiriannau ysgol ac esgynlawr yng Ngogledd Cymru, a'r canlyniad fyddai gostwng nifer y peiriannau yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru o 4 i 3.

4 Yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 19 Mawrth 2012, a'r peiriant hynaf ar fin ymadael â'i oes weithredol, penderfynodd yr Aelodau leoli'r tri peiriant sydd ar ôl ym Mangor, y Rhyl a Wrecsam.

## Y Sefyllfa Bresennol

5 Anfonwyd ateb i bob gohebiaeth, ac mae copïau o'r atebion yn Atodiad 2.

6 Roedd pob ateb yn cyfeirio at y dadansoddiad cynhwysfawr o'r data am y peiriannau, yr ystyriaethau ar y cyflwyniadau a roddwyd i'r Awdurdod a'r trafod helaeth a fu gan yr Aelodau cyn penderfynu.

7 Mae pob ateb wedi ceisio rhoi sicrwydd i'r rhai a oedd yn derbyn yr ohebiaeth fod Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru wedi ymrwymo'n barhaus i fynd â'r adnoddau priodol at argyfyngau yn y modd cyflymaf posibl bob amser.

8 O ran yr ateb i Gyngor Tref Abermaw, mae pob cwestiwn unigol wedi cael ei ateb, a rhoddwyd sicrwydd bod y camau rheolaeth priodol yn cael eu cymryd gan ein cydweithwyr yng Ngwasanaeth Tân ac Achub y Canolbarth a'r Gorllewin ar ôl ymgynghori â'r Gwasanaeth hwnnw.

## Argymhelliad

9 Bod yr Aelodau'n nodi'r ohebiaeth.